## *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:*
## Darpariaeth terfynu beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2018
Gweithredu erbyn: Ymatebion erbyn 09 Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw: Hilary Watson, Swyddog Polisi ac Ymchwil<br><br>Corff (os yw'n gymwys): Cymorth i Ferched Cymru<br><br>ebost / rhif ffôn: HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk<br>02920 541 551<br><br>Eich cyfeiriad: Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF10 5GU. |

**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff aelodaeth ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth i 26 o wasanaethau arbenigol annibynnol trydydd sector ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).[i] Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr dan arweiniad anghenion, yn ymateb i rywedd ac sy'n gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac ymarfer cymunedol yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chynorthwyo comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth iddynt ddatblygu asesiadau angen a chynlluniau strategol ar gyfer VAWDASV, gan hyrwyddo tystiolaeth am fodelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus rydym ni'n eu cyflenwi i aelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod-wasanaethau â pholisi perthnasol, datblygiadau deddfwriaethol a strategol ac annog cyd-gynhyrchu o ran datblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflenwi ymarfer addawol yn y sector; darparu cefnogaeth gyda materion polisi, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu datblygiadau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Cyfri sydd, er enghraifft yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin a chyflenwi rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota prosiect ymgysylltu â goroeswyr i helpu i wella ymatebion asiantaethau i gam-drin (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu a llywio gwasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflenwi'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y safonau yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/)

**Nodwch yma:**

Mae Cymorth i Ferched Cymru'n cefnogi'n llawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'n gyhoeddus ac yn ariannol - drwy GIG Cymru - hawliau dynol menywod a merched o Ogledd Iwerddon i fod â rheolaeth dros eu cyrff eu hunain a cheisio gwasanaethau meddygol diogel a chyfreithlon mewn perthynas â therfynu beichiogrwydd[1]. Llynedd oedd hanner canmlwyddiant Deddf Erthylu 1967 y DU, Deddf nad yw'n weithredol yng Ngogledd Iwerddon. Ers llawer gormod o amser, mae menywod Gogledd Iwerddon wedi gorfod gadael eu mamwlad i geisio erthyliad sy'n ddiogel yn feddygol mewn rhannau eraill o'r DU ac Ewrop. Mae natur gudd y gofyniad hwn wedi arwain at ddata annibynadwy o ran y nifer o erthyliadau a gafwyd gan fenywod o Ogledd Iwerddon. Er bod rhywfaint o obaith y ceir diwygio o ran ymarferion erthylu sydd wedi dyddio yng Ngweriniaeth Iwerddon, gyda'r refferendwm arfaethedig ar ddiddymu Diwygiad 8 yng Nghyfansoddiad Gweriniaeth Iwerddon, nid yw'r bleidlais hon yn berthnasol i fenywod yng Ngogledd Iwerddon. Mae felly'n amserol ac yn briodol i GIG Cymru gefnogi menywod o Ogledd Iwerddon, nad oes ganddynt bleidlais o'r fath.

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywedd mewn cymdeithas. Nid oes modd cyflawni cydraddoldeb pan nad oes gan hanner cymdeithas reolaeth dros eu cyrff a'u hiechyd atgenhedlu eu hunain. Felly, mae Cymorth i Ferched Cymru yn llawn gefnogi hawliau menywod o Ogledd Iwerddon i fanteisio'n ddiogel ar yr hawl i derfynu beichiogrwydd yng Nghymru, gan fod y gwaharddiad ar erthylu'n parhau yng Ngogledd Iwerddon.

Os nad yw'n bosibl cael erthyliadau sy'n feddygol ddiogel a chyfreithlon, nid yw lles corfforol a seicolegol menywod yn cael ei ddiogelu[2]. Nid yn unig mae erthyliadau 'anghyfreithlon' heb eu rheoleiddio yn cael eu cynnal[3], ond ni ddylai menywod fyth gael eu gorfodi gan amgylchiadau i barhau â beichiogrwydd dieisiau neu anniogel i'w dymor llawn[4]. Ymhellach, mae'r ffaith nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer terfynu mewn achosion o feichiogrwydd yn sgil trais, cam-drin rhywiol teuluol (llosgach) ac annormaledd ffoetws, yn atgas, yn ogystal â bod yn niweidiol yn gorfforol ac yn seicolegol i'r fenyw. Caiff beichiogrwydd drwy orfodaeth a cham-drin sy'n arwain at feichiogrwydd eu cydnabod yn fath o drais yn erbyn menywod a merched yn niffiniad y Cenhedloedd Unedig.[5]

Tra bo hawliau menywod yng Ngogledd Iwerddon yn anghyfiawn ac yn anghyfartal â hawliau menywod yng Nghymru a gweddill y DU, mae'n briodol a chywir i lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU alluogi dinasyddion y DU i fanteisio ar wasanaethau terfynu beichiogrwydd sydd wedi'u hariannu'n llawn. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd asesu a geir hawliau mynediad teg a chyfartal i'r GIG yng Nghymru i fenywod Gogledd Iwerddon, o ran cyfyngiadau economaidd-gymdeithasol a chostau ychwanegol teithio a llety[6]. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn annog Llywodraeth Cymru hefyd i ystyried cyllido mwy na chostau uniongyrchol GIG Cymru sy'n gysylltiedig â therfynu beichiogrwydd, fel grantiau teithio ar sail anghenion neu gymorthdaliadau teithio i ehangu demograffeg menywod Gogledd Iwerddon a allai fforddio manteisio ar gymorth Llywodraeth Cymru.

---

[1] Amnest Rhyngwladol, 'United Kingdom: Northern Ireland: Barriers to Accessing Abortion Services', *Amnesty International,* 2015, https://www.amnesty.org/download/Documents/EUR4510572015ENGLISH.pdf, (cyrchwyd 18 Ionawr 2018).

[2] Ibid.

[3] Er ei bod yn anodd canfod ffigurau dangosol am y nifer o erthyliadau cudd a geir yng Ngogledd Iwerddon, credir mai'r rheswm y ceir lleihad yn y nifer o fenywod o Ogledd Iwerddon sy'n ceisio erthyliad yn y DU (ac yn bennaf yn Lloegr yn yr erthygl isod), yw am fod nifer cynyddol o fenywod yn mewnforio tabledi erthylu'n anghyfreithlon o dramor. Oherwydd y natur anghyfreithlon a'r stigma cysylltiedig, mae llawer sy'n ceisio erthyliad yn gwneud hynny heb wybodaeth feddygol ac yn gyfrinachol, yn aml heb ddweud wrth deulu na ffrindiau, sy'n achos pryder difrifol o ran eu lles corfforol a meddyliol. A. Gentleman, 'Abortion figures prompt fresh calls for reform of Northern Irish law'. *The Guardian,* 13 Mehefin 2017, https://www.theguardian.com/uk-news/2017/jun/13/abortion-figures-prompt-fresh-calls-for-reform-of-northern-irish-law, (cyrchwyd 18 Ionawr 2018).

[4] Amnest Rhyngwladol, 'United Kingdom: Northern Ireland: Barriers to Accessing Abortion Services', *Amnesty International,* 2015, https://www.amnesty.org/download/Documents/EUR4510572015ENGLISH.pdf, (cyrchwyd 18 Ionawr 2018).

[5] http://www.un.org/womenwatch/daw/beijing/platform/violence.htm.

[6] Amnest Rhyngwladol, 'United Kingdom: Northern Ireland: Barriers to Accessing Abortion Services', *Amnesty International,* 2015, https://www.amnesty.org/download/Documents/EUR4510572015ENGLISH.pdf, (cyrchwyd 18 Ionawr 2018).

Dylid gosod pob cymorth i fenywod Gogledd Iwerddon allu manteisio ar wasanaeth terfynu beichiogrwydd yng nghyd-destun cyflwr y ddarpariaeth erthylu a geir yng Nghymru heddiw, sydd angen ei gwella. Dywedodd yr Aelod Cynulliad Jenny Rathbone yn y Senedd ar 16 Ionawr 2018 fod gallu llawer o fenywod yng Nghymru i gael erthyliad yn cael ei oedi'n artiffisial, gan fod rhaid iddynt weld meddyg teulu cyn gallu cael gwasanaethau gynecolegol, ac mae llawer yn talu £600 eu hunain i gael gwasanaethau gynecolegol amserol am eu bod wedi gorfod defnyddio clinigau preifat. Gall oedi hefyd olygu bod angen erthyliad llawfeddygol oherwydd ei bod yn rhy hwyr ar gyfer terfyniad meddygol llai ymwthiol. Mae angen mwy o fuddsoddi ariannol mewn gwasanaethau erthylu ar draws Cymru, er mwyn i bob menyw allu cael cymorth rhagorol ac amserol. Nid yw'n ddigon i Lywodraeth Cymru ganiatáu i fenywod Gogledd Iwerddon ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn unig, mae'n gwbl hanfodol fod cyllid ychwanegol yn cael ei roi i gefnogi'r galw cynyddol ar y gwasanaethau a hefyd mynd i'r afael â'r diffyg yn y ddarpariaeth bresennol.

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwneud y canlynol:**

1. Cynorthwyo menywod o Ogledd Iwerddon i fanteisio ar wasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru.
2. Cyllido costau'n gysylltiedig â chynnig y ddarpariaeth hon, gan gynnwys grantiau teithio a chostau llety i fenywod o Ogledd Iwerddon sy'n derbyn y gwasanaeth hwn.
3. Buddsoddi i wella mynediad a darpariaeth i bob menyw sy'n defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd GIG Cymru

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych fod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch yma:

---

[i] Ein haelodaeth o 27 o wasanaethau arbenigol trydydd sector VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio: Aberconwy DAS, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, BAWSO, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Stepping Stones, New Pathways, Merthyr Tudful Diogelach, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grwp Cynefin), Hafan Cymru, Llamau, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Ferched RCT, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli yn flaenorol), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhyw Gogledd Cymru.